PDC / APW

PANEL DYFARNU CYMRU
ADJUDICATION PANEL FOR WALES

31 Awst 2018

Annwyl Swyddog Monitro

**Panel Dyfarnu Cymru – Recriwtio Aelod Cyfreithiol**

Ysgrifennaf atoch i'ch hysbysu bod y Comisiwn Penodiadau Barnwrol yn bwriadu mynd ati cyn hir i benodi dau aelod cyfreithiol newydd i Banel Dyfarnu Cymru. Disgwylir i'r broses ddechrau ar 4 Hydref 2018, ac fe ddylid ymgeisio drwy wefan y Comisiwn (www.judicialappointments.gov.uk).

Mae Panel Dyfarnu Cymru yn awyddus i sicrhau mwy o amrywiaeth ac yn croesawu ceisiadau o blith grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol. Ceir rhagor o fanylion ar dudalen wybodaeth y broses hon ar wefan y Comisiwn. Hoffwn eich atgoffa hefyd bod y cyfleoedd hyn ar agor i gyfreithwyr a bargyfreithwyr yng Nghymru a Lloegr sydd ag o leiaf 5 mlynedd o brofiad ar ôl cymhwyso. Mae cyfreithwyr, bargyfreithwyr ac adfocadau o'r Alban a Gogledd Iwerddon hefyd yn gymwys i ymgeisio. Mae modd penodi cyfreithwyr llywodraeth leol, ond ni fydd modd iddynt wrando ar achosion yn ymwneud â'u cyflogwyr.

Buaswn yn gwerthfawrogi pe gallech hysbysu'ch cydweithwyr sydd wedi cymhwyso yn y gyfraith bod llefydd gwag ar Banel Dyfarnu Cymru, rhag ofn eu bod yn dymuno ymgeisio.

Yn gywir

Claire Sharp
Llywydd Panel Dyfarnu Cymru

*Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.*
*We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.*

PDC, Adeiladau Llywodraeth, Heol Spa Ddwyrain,
Llandrindod, Powys, LD1 5HA
Llinell Gymorth/Helpline: 03000 259805
E-bost: adjudication.panel@llyw.cymru
www.PDC.llyw.cymru

APW, Government Buildings, Spa Road East,
Llandrindod Wells, Powys, LD1 5HA
Ffacs/Fax: 03000 259801
Email: adjudication.panel@gov.wales
www.APW.gov.wales